Preswyliad a Enillir: Llwybr Tecach i Breswylio

Sylwer, cyflwynwyd yr ymgynghoriad hwn drwy arolwg i Swyddfa Gartref y DU. Roedd gan bob ateb ysgrifenedig derfyn geiriau o 200 gair.

Ar y cyfan, pa mor glir yw'r newidiadau arfaethedig i'r fframwaith preswylio, yn eich barn chi?

• Yn glir iawn

• Yn weddol glir

• Ddim yn glir nac yn aneglur

• Yn weddol aneglur

• **Yn aneglur iawn** ☒

• Ddim yn gwybod / byddai'n well gennyf beidio â dweud

[Os nad yw'n glir] Pa agweddau ar y newidiadau arfaethedig i breswylio sydd ddim yn glir?

• Y cysyniad o breswyliad a enillir

• Y pwrpas cyffredinol

• Pa grwpiau a allai fod yn gymwys i gael eithriadau o'r cyfnod cymhwyso o 10 mlynedd

• **Sut y bydd gostyngiadau i'r cyfnod cymhwyso yn cael eu cymhwyso** ☒

• **Sut y bydd estyniadau i'r cyfnod cymhwyso yn cael eu cymhwyso ☒**

• Sut y bydd gostyngiadau a/neu estyniadau yn cael eu cymhwyso os bydd ymgeiswyr yn bodloni sawl maen prawf

• Sut y bydd y newidiadau arfaethedig yn berthnasol i ddibynyddion a phlant

• Arall (nodwch os gwelwch yn dda)

Yn gyffredinol, i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r newidiadau arfaethedig i'r fframwaith preswylio?

• Yn cytuno'n gryf

• Yn cytuno

• Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

• Yn anghytuno

• **Yn anghytuno'n gryf ☒**

• Ddim yn gwybod / byddai'n well gennyf beidio â dweud

Sut y dylid asesu integreiddio, yn eich barn chi? (dewiswch bob un sy'n berthnasol)

• Trwy brawf ffurfiol (fel Prawf Bywyd yn y DU diwygiedig)
• Trwy dystiolaeth barhaus a gesglir (megis tystiolaeth o gyfranogiad mewn cyflogaeth/gweithgarwch gwirfoddoli neu addysg Saesneg ardystiedig)
• Trwy gwblhau cwrs cyfeiriadedd diwylliannol ar ôl cyrraedd y DU
• Trwy eirdaon gan weithwyr gwasanaethau cyhoeddus proffesiynol a Gwladolion Prydeinig
• Trwy dystiolaeth o ddysgu a chyfranogiad yn y gymuned ehangach (gan gynnwys tystiolaeth gan fudiadau/grwpiau perthnasol)
• **Mewn ffordd arall (nodwch os gwelwch yn dda) ☒**

Mae CGGC o'r farn bod yna nifer o fanteision allweddol ynghlwm wrth wirfoddoli, gan gynnwys cefnogi pobl i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd a gwella lles corfforol a meddyliol. I'r rhai sy'n dymuno ymgartrefu yn y DU, gall gwirfoddoli gynnig cyfleoedd gwerthfawr i ymarfer sgiliau Cymraeg a Saesneg ac i integreiddio yn y gymuned leol. Dylai fod cyfleoedd cyfartal a ariennir yn briodol i bawb yn y DU wirfoddoli, gan gynnwys ymfudwyr.

Fodd bynnag, nid ydym o'r farn y dylai gwirfoddoli fod yn rhan o asesiad preswylio ffurfiol. Gallai cynnwys gwirfoddoli yn rhan o feini prawf y cyfnod cymhwyso danseilio natur wirfoddol hanfodol y gweithgaredd trwy ychwanegu elfen orfodol. Byddai hefyd yn rhoi straen ychwanegol ar sector sydd eisoes dan bwysau mawr a gallai olygu bod unigolion, o bosibl, yn cael eu hamlygu i actorion drwg sy'n ceisio manteisio ar y system. Gallai hyn, yn ei dro, arwain at niwed i unigolion yn ogystal â niwed i enw da'r sector gwirfoddol.

I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai ymgeiswyr sy'n ennill incwm trethadwy o fwy na £50,270 fod yn gymwys i gael gostyngiad yn eu hamser i breswylio?

• Yn cytuno'n gryf

• Yn cytuno

• Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

• Yn anghytuno ☒

• Yn anghytuno'n gryf

• Ddim yn gwybod / byddai'n well gennyf beidio â dweud

I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid ystyried rhoi yn ôl i'r gymuned leol (e.e. trwy wirfoddoli) fel cyfraniad a all leihau'r cyfnod o amser sydd ei angen i fod yn gymwys i breswylio?

• Yn cytuno'n gryf

• Yn cytuno

• Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

• Yn anghytuno

• Yn anghytuno'n gryf ☒

• Ddim yn gwybod / byddai'n well gennyf beidio â dweud

[Os yw'n fudiad] A yw'ch mudiad yn derbyn neu'n rheoli gwirfoddolwyr ar hyn o bryd?

• **Ydy** ☒

• Nac ydy

• Ddim yn gwybod / byddai'n well gennyf beidio â dweud

[Os yw'n fudiad â gwirfoddolwyr] Pa mor hawdd neu anodd fyddai hi, yn eich barn chi, i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth eu bod yn rhoi yn ôl i'r gymuned?

• Yn hawdd iawn

• Yn weddol hawdd

• Ddim yn hawdd nac yn anodd

• Yn weddol anodd

• **Yn anodd iawn** ☒

• Ddim yn gwybod / byddai'n well gennyf beidio â dweud

12. [Os yw'n fudiad â gwirfoddolwyr] Gan ystyried unrhyw fanteision neu heriau posibl, pa effaith y byddai cydnabod rhoi yn ôl i'r gymuned fel cyfraniad tuag at breswylio yn ei chael ar eich mudiad yn gyffredinol? A fyddai hyn yn cael...

• Effaith gadarnhaol iawn

• Effaith weddol gadarnhaol

• Dim effaith

• Effaith weddol negyddol

• Effaith negyddol iawn ☒

Oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach ar sut y dylai 'Cyfraniadau' gael eu hystyried mewn perthynas â phreswylio, gan gynnwys unrhyw fanteision neu heriau posibl sydd ynghlwm wrth gydnabod rhoi yn ôl i'r gymuned fel cyfraniad tuag at breswylio?

Mae ymgysylltiad CGGC yn dangos mai ychydig iawn o gefnogaeth sydd yna i'r cynigion hyn yn y sector gwirfoddol. Yn foesegol, mae mudiadau yn pryderu bod natur orfodol y cynigion yn tanseilio egwyddorion craidd gwirfoddoli. Nododd un cynrychiolydd fod y cynigion yn 'wirioneddol sarhaus'.

Ymhlith y pryderon ymarferol a godwyd gan y sector mae'r canlynol:

- Y gost uchel o gefnogi gwirfoddolwyr newydd mewn sector sydd eisoes o dan bwysau ariannol sylweddol.
- Y ffaith nad yw'r cynigion yn cyd-fynd â'r diffiniad o wirfoddoli a ffefrir gan Lywodraeth Cymru a'r sector.
- Cost ac argaeledd cyfieithu, a'r angen i hyfforddi staff i gefnogi gwirfoddolwyr, yn enwedig os na chaiff adnoddau ychwanegol eu darparu.
- Byddai heriau diogelu, gan gynnwys cwblhau gwiriadau DBS i bobl sy'n ceisio noddfa, yn golygu bod llai o gyfleoedd ar gael.

- Risgiau y bydd actorion drwg sy'n dod i mewn i'r sector yn camfanteisio ar bobl, yn amrywio o bryderon ynghylch caethwasiaeth fodern i gynlluniau 'talu i wirfoddoli' posibl.
- Gallai gallu'r sector i gefnogi gwirfoddolwyr yn effeithiol heb adnoddau ychwanegol arwain at niwed i bobl sydd eisiau preswylio, yn ogystal ag i staff.
- Roedd y diffyg manylion yn y cynigion yn cyfyngu ar allu'r sector i graffu'n briodol ar y polisi.
- Gofynion tystiolaeth a'r baich gweinyddol y byddai hyn yn ei roi ar y sector, yn enwedig ar gyfer 'gwirfoddoli anffurfiol', y byddai'n anodd ei ddangos.

[Os yw'n fudiad] I ba raddau, os o gwbl, y bydd y diwygiadau arfaethedig yn effeithio ar eich mudiad yn y ffyrdd canlynol, yn eich barn chi?

	Effaith bositif iawn	Effaith eithaf positif	Dim effaith	Effaith eithaf negyddol	Effaith negyddol iawn	Ddim yn berthnasol	Ddim yn gwybod / byddai'n well gennyf beidio â dweud
Y gallu i ddenu ymgeiswyr addas				X			
Y gallu i gadw gweithwyr mudol presennol							X
Cynllunio'r gweithlu							X
Baich gweinyddol					X		

[Os yw'n fudiad] Oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach ar yr effeithiau y gallai'r newidiadau arfaethedig i breswylio eu cael ar eich mudiad?

Mae CGGC wedi ymateb i'r ymgynghoriad hwn fel corff cynrychioliadol y sector gwirfoddol yng Nghymru ac fel mudiad annibynnol ynddo'i hun.

Rydym yn pryderu am yr hyfforddiant a'r cymorth ychwanegol y byddai eu hangen gan fudiadau sy'n rheoli gwirfoddolwyr ychwanegol gydag anghenion cymorth uchel o bosibl. Byddai hyn yn rhoi straen sylweddol ar ein gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys cymorth diogelu, hyfforddiant staff, a chymorth cynhyrchu incwm. Nid yw'n glir a fyddai Llywodraeth y DU yn darparu digon o adnoddau ychwanegol i alluogi'r sector i fodloni'r gofynion hyn.

Mae risg hefyd i enw da'r sector. Gall actorion drwg geisio manteisio ar y system, gan danseilio'r safonau cryf a gynhelir fel arfer yn y sector gwirfoddol a rhoi gwirfoddolwyr a staff mewn perygl o bosibl. Efallai y bydd staff hefyd yn teimlo dan bwysau i gynnig cyfleoedd gwirfoddoli y tu hwnt i'w gallu ac i gefnogi cynifer o ddarpar ymsefydlwyr â phosibl.

Bydd y sector yn cael trafferth cynnig cyflogau sy'n bodloni'r trothwy o £50,270 sy'n ofynnol i fyrhau amseroedd preswylio, a fyddai'n rhwystro recriwtio a chadw staff medrus. Nid yw ychwaith yn cyfrif am amrywiadau rhanbarthol mewn cyflogau.

Yn olaf, nid yw'r cynnig yn cydnabod pwysigrwydd a statws swyddogol yr iaith Gymraeg, sy'n anfantais benodol ac anghymesur i ymfudwyr yng Nghymru.